

CYNGOR CYMUNED LLANELLYD, TAICYNHAEAF A BONTDDU

Cynhelir y Cyfarfod ar Zoom
Nos Fawrth, Hydref 12, 2021 am 7:30yh o'r gloch.

AGENDA

www.cyngorllanelltyd.cymru

Gweddi

1. Ymddiheuriadau:

2. Datgan diddordeb:

3. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Medi 14, 2021

4. Materion yn codi o'r cyfarfod Medi 14, 2021

Eitem 5. c. Derbyniwyd (20/9/2021) £6.02 ad-daliad oddi wrth Dŵr Cymru i ddod ein taliadau at Doiledau Cyhoeddus Bontddu i ben.

5. Materion Ariannol

a. Llythyr (23/8/2021) oddi wrth HSBC UK yn rhoi gwybod bod newidiadau yn cael ei wneud i'n cyfrif o Dachwedd 1, 2021. Mae amryw o newidiadau ac mi fydd rhain yn cael eu gwneud yn otomatig. O'r wybodaeth derbyniwyd mi fyddwn gyda 'Small Business Banking Account', cost o £8.00 y mis, a chost o £1.50 i dalu siec i'r banc. Wrth ddefnyddio pethau electronig does dim costau.

b. Bil (3/10/2021) am £1,368.00 oddi wrth Gwasanaeth Tir a Choed am dorri gwair llwybrau cyhoeddus cymuned Llanelltyd. (Llynedd roedd y bil am £1,296.00)

dd. Balans yn y banc ar 29/9/2021: £14,022.31. (29/9/2020: £13,942.17).

6. Archwilio

a. Llythyr (27/9/2021) oddi Archwilio Cymru yn rhoi gwybod (i bob cyngor) mae gwaith archwilio ar y gweill ac mae nifer o amgylchiadau annisgwyl wedi arwain at rywfaint o oedi i'r gwaith. Os na fyddwn wedi derbyn Tystysgrif Archwilio ganddynt cyn y 30ain o Fedi, mae angen gyhoeddi'r hysbysiad (amgau) mewn man amlwg yn y gymuned ac ar ein gwefan. Gallwn wedyn gyhoeddi ein ffurflen flynyddol ar ein gwefan fel y nodir yn yr hysbysiad.

Rhodddwyd yr hysbysiad ar ein gwefan.

7. Mynwent Llanelltyd

8. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

a. Ceisiadau cynllunio:

i. Cais NP5/65/39C. Gosod adeilad swyddfa yn y maes parcio. Yr Hen Ysgol, Llanelltyd.

Penderfynwyd cefnogi'r cais (27/9/2021).

ii. Cais NP5/65/LU39D. Tystysgrif Defnydd Cyfreithiol ar gyfer newid defnydd o C3 (Tŷ annedd) i C2 (Sefydliadau preswyl). Yr Hen Ysgol, Llanelltyd.

Angen gwybodaeth bersonol Gyngorwyr o ddefnydd y tir yn ystod y 10 mlynedd diwethaf.

iii. Cais NP5/65/370. Gosod mainc mewn pethynas a Priosect Awyr Dywyll yr Awdurdod. Maes Parcio, Farchynys, Bontddu.

b. Llythyr (7/10/2021) yn rhoi manylion o'u prosiect newydd gyda Chambers Conservation 'Ardaloedd Cadwraeth sy'n addas ar gyfer yn Unfed Ganrif ar Hugain'. Mae'r ardaloedd gadwriaeth gyda diddordeb pensaernïol neu bwysigrwydd hanesyddol, ble mae cymeriad neu edrychiad yn ddymunol i'w ddiogelu neu fireinio. Mae'n cynnwys Abaty Cymmer. Bydd y prosiect yn cael ei wneud rhwng mis Hydref 2021 – mis Mawrth 2022 i ddatblygu Gwerthusiad a Chynlluniau Rheoli er mwyn eu defnyddio i warchod a datblygu'r Ardaloedd Cadwraeth. Maent angen gwahoddiad i fynychu cyfarfod y Cyngor Cymuned am wybodaeth.

9. Gohebiaeth

a. Llythyr (22/9/2021) oddi wrth Un Llais Cymru gyda rhestr o gyrsiau am fis Medi/Hydref.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

b. Llythyr (23/9/2021) oddi wrth Cymdeithas yr Iaith yn rhoi gwybod am daith beicio bydd yn cymryd lle ar 11 a 13 Tachwedd o Gaernarfon i Gaerdydd i dynnu sylw at argyfwng tai yn Cymru. Amgáu mae llythyr i'r cynghorwyr arwyddo i roi gwybod maent yn hapus i ychwanegu eu henwau i'r Llywodraeth reoli'r farchnad dai.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

c. Llythyr (24/9/2021) oddi wrth Priffyrdd, Cyngor Gwynedd angen gwybod pa finiau halen sydd angen eu llenwi. Maent angen gwybod cyn Tachwedd 1, 2021. Y gost fydd £46 y bin.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

ch. Llythyr (3/10/2021) oddi wrth Cylch yr Iaith yn rhoi gwybod gall y Cyngor wrthwynebu cais cynllunio ar sail bygythiad datblygiad i'r iaith Gymraeg yn y gymuned.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

10. Adroddiad Cyng. Peredur Jenkins

11. Materion Brys

a. Mae angen adolygu ein polisiau sef: Cod Ymddygiad Aelodau, Rheolau'r Fynwent, Rheolau Sefydlog, Rheoliadau Ariannol, Polisi Iaith, Protocol Datrysiaid.

Mae'r polisiau ar wefan y Cyngor. Nid ydynt wedi newid ers blwyddyn diweddaf.

b. Cafwyd wybod gan aelod Cyngor Cymuned Brithdir a Llanfachreth, pwy fynychodd cwrs Un Llais Cymru 'Sgiliau Cadeirio', nid oedd yn gywir cynnwys eitem 'Unrhyw fater arall' ar yr Agenda. Dim ond eitemau sydd ar yr Agenda sydd i gael sylw.

Wedi gwneud ymoliadau gyda Un Llais Cymru cafwyd gwybod (6/9/2021) nid yw'n arferiad da i gynnwys yr eitem ar yr Agenda.

Ar agenda cyfarfodydd Un Llais Cymru mae eitem 'Unrhyw faterion arall yn ôl doethineb y Cadeirydd' yn cael ei gynnwys.

Yn gywir,
H.M. Edwards, Clerc